ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

# Datganiad Ystadegol Cyntaf


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2014): Prif amcanestyniad

**29 Medi 2016**
**SFR 129/2016**

Mae disgwyl i boblogaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru gynyddu rhwng 2014 a 2039. Amcanestynnir mai Caerdydd fydd yn gweld y cynnydd mwyaf, sef 26 y cant gyda Wrecsam yn ail (10 y cant). Amcanestynnir mai poblogaeth Powys fydd yn gostwng fwyaf (8 y cant). Y prif amcanestyniadau a gyflwynir yma. Mae amryw o sefyllfaoedd eraill hefyd wedi'u paratoi i ddangos amrywiad posibl yr amcanestyniadau.

**Siart 1: Poblogaeth yn ôl awdurdod lleol yn 2014 a'r boblogaeth ragamcanol yn 2039**




## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r prif amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol Cymru am y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2014, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth yn y dyfodol ac yn seiliedig ar ragdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd cynt fel arfer.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Prif bwyntiau | 4 |
| Cymariaethau | 24 |
| Amrywiolion | 27 |
| Nodiadau | 29 |


Ystadegydd: Alan Jackson ~ 029 2082 5050 ~ ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau'r wasg: 029 2089 8099 Ymholiadau'r cyhoedd : 029 2082 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Cyflwyniad

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau cynt. Nid rhagolygon yw'r amcanestyniadau poblogaeth ac nid ydynt yn ceisio rhagweld effaith bosibl polisïau'r llywodraeth, amgylchiadau economaidd newidiol neu ffactorau eraill (er enghraifft, polisïau'r llywodraeth ar fewnfudo neu oblygiadau canlyniad refferendwm yr UE) ar ymddygiad demograffig yn y dyfodol.

Mae'r amcanestyniadau hyn sy'n seiliedig ar 2014 yn amcanestyniadau seiliedig-ar-dueddiadau ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn [1] ar gyfer 2014 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2015. Am eu bod yn seiliedig ar dueddiadau ânt yn llai sicr y pellaf ymlaen yr eir â hwy. I ddangos hyn i ddefnyddwyr cynhyrchir nifer o amcanestyniadau amrywiadol sy'n darparu sefyllfaoedd eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau gwahanol o gyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r lefel uchaf nac isaf, ond maent yn dangos sut fyddai sefyllfa'r boblogaeth, er enghraifft, pe bai ffrwythlondeb yn gostwng yn is na'r hyn a dybir ar gyfer y prif amcanestyniad.

Mae'r prif amcanestyniad yn dangos beth fyddai'n digwydd pe bai tueddiadau diweddar yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau hyn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i lunio Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Awdurdod Lleol. Dyma ddylai fod yn fan dechrau; fodd bynnag, gan fod yr amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau, efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno llunio eu hamcanestyniadau seiliedig ar bolisi eu hunain. Os felly, dylent gyfiawnhau'r dull maent wedi'i ddewis. Dylent hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael ar gyfer y sylfaen dystiolaeth fel asesiadau o'r farchnad dai leol.

Amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yw'r rhain ac nid ydynt wedi'u cynllunio i roi amcanestyniadau ar gyfer Cymru gyfan - cynhyrchir y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran cymariaethau'r datganiad.

[1] http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/2015-06-25

## Allbynnau

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys y prif amcanestyniadau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Maent wedi'u seilio ar ddata ar enedigaethau, marwolaethau a mudo ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2014. Ystyrir felly mae'r prif amcanestyniadau hyn sy'n adlewyrchu orau batrymau demograffig diweddar yr adeg y'u lluniwyd. Mae amcanestyniadau amrywiadol ar gael hefyd er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth. Cyhoeddir bwletin ystadegol yn rhoi sylwebaeth ar yr amrywiadau ar 5 Hydref.

Cyhoeddwyd y Datganiad Cyntaf hwn ar wefan Llywodraeth Cymru a chyfres o dablau ar wefan StatsCymru. Cyhoeddwyd canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth 2011 ar gyfer Cymru yn yr adroddiad technegol isod:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-local-authority-population-projections-technical-en.pdf
Mae'n disgrifio sut y cynhyrchwyd amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol, ac yn rhoi disgrifiad manwl o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i wneud tybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddiweddaru dros y misoedd nesaf i adlewyrchu amcanestyniadau 2014.

Mae cyfres o Gwestiynau Cyffredin yma:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-population-projections-faqs-en.pdf

Mae offeryn ar gyfer dadansoddi'r amcanestyniadau gan awdurdod lleol ar gael yma:
http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-population-projections/

Mae adroddiad ansawdd ar gyfer yr ystadegau hyn (a'r amcanestyniadau arall) ar gael yma:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160802-population-household-statistics-quality-report-en.pdf

# Pwyntiau allweddol:

## Y Newid Rhagamcanol yn y Boblogaeth

- Amcanestynnir y bydd poblogaethau Gwynedd, Wrecsam, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd yn cynyddu'n raddol rhwng 2014 a 2039.
- Amcanestynnir y bydd poblogaethau Ynys Môn, Blaenau Gwent a Phowys yn gostwng yn raddol rhwng 2014 a 2039.
- Amcanestynnir y bydd poblogaethau Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Caerffili a Sir Fynwy yn cynyddu nid gostwng, ond yn parhau'n uwch yn 2039 nag yn 2014.
- Amcanestynnir y bydd poblogaethau Sir Benfro, Torfaen a Merthyr Tudful yn cynyddu nid gostwng, ac y bydd yn is yn 2039 nag yn 2014.
- Yn achos yr wyth awdurdod lleol sy'n dangos cynnydd graddol mewn poblogaeth ragamcanol rhwng 2014 a 2039, mae'r cynnydd canrannol yn amrywio o 4.0 y cant ar gyfer Rhondda Cynon Taf a 25.5 y cant ar gyfer Caerdydd (y mwyaf o bell ffordd), gyda thua 9 y cant o gynnydd ar gyfer y rhan fwyaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn i'w briodoli i fudo (mewnol neu ryngwladol), gyda'r cynnydd yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf i'w briodoli i newid naturiol yn bennaf, a'r cynnydd yng Nghasnewydd i'w briodoli i newid naturiol yn unig.
- Amcanestynnir y bydd poblogaeth tri awdurdod lleol yn gostwng yn raddol rhwng 2014 a 2039, sef Ynys Môn (gostyngiad o 2.6 y cant), Blaenau Gwent (gostyngiad o 4.9 y cant), a Phowys (gostyngiad o 7.7 y cant). Ym Mhowys ac Ynys Môn, mae'r gostyngiad i'w briodoli i newid naturiol, ac ym Mlaenau Gwent, mae i'w briodoli'n bennaf i allfudo net.
- Nid yw hanner yr awdurdodau lleol yn dangos cynnydd neu ostyngiad graddol yn amcanestyniad eu poblogaeth dros gyfnod yr amcanestyniad: patrwm pob un ohonynt yw cynnydd rhagamcanol ac yna gostyngiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio sy'n arwain at ostyngiad oherwydd newid naturiol (h.y. poblogaeth hŷn a gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio).

## Mudo tybiedig

dan y prif amcanestyniadau, mae'r rhagdybiaethau mudo yn seiliedig ar y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2014.

- Mae niferoedd tybiedig mudwyr i mewn ac allan mewnol rhwng dwy fil a chwe mil yn gyffredinol yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol: mae'r niferoedd ychydig yn is ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, ychydig yn uwch yn Abertawe, a llawer yn uwch yng Nghaerdydd.
- Mae mudo rhyngwladol net yn amrywio rhwng 400 a -100 yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac eithrio Caerdydd (900), Abertawe (800), a Gwynedd (500).

### Genedigaethau a marwolaethau rhagamcanol

- Yn ystod y flwyddyn o ganol 2014 i ganol 2015, roedd mwy o farwolaethau na genedigaethau mewn tua thraean o awdurdodau lleol.
- Ar gyfer dwy flynedd ganolraddol, sef canol 2022 hyd at ganol 2023, a chanol 2030 hyd at ganol 2031, amcanestynnir y bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau yn tua hanner o'r awdurdodau lleol.
- Erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau, amcanestynnir y bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau mewn tua dwy ran o dair o'r awdurdodau lleol.

### Amcanestyniadau amrywiadol

- Mae'r gwahaniaethau rhwng yr 'amrywiolyn uchel' a'r prif amcanestyniad ar gyfer awdurdodau lleol tua 4,600 ar gyfartaledd, a'r gwahaniaeth rhwng yr 'amrywiolyn isel' a'r prif amcanestyniad tua 5,900 yng nghanol 2039.

## Newidiadau i'r fethodoleg

Defnyddiwyd yr un fethodoleg ar gyfer amcanestyniadau 2014 ag a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau blaenorol, ond mae dau newid wedi'u cymeradwyo gan Grŵp Gweithredol Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). I gael rhagor o wybodaeth am y grŵp hwn a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r amcanestyniadau hyn, gweler yr adroddiad technegol: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-local-authority-population-projections-technical-en.pdf

### Poblogaeth carchardai

Wrth lunio'r amcanestyniadau hyn, nodwyd newid sylweddol yn y data ar garcharorion a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Hyd at ac yn cynnwys amcanestyniadau poblogaeth canol 2011, roedd poblogaeth y carchardai yn seiliedig ar y rhai a oedd wedi bod yn y carchar am 6 mis neu fwy. Ar ôl Cyfrifiad 2011, newidiwyd y diffiniad i'r rhai a oedd wedi cael dedfryd carchar o 6 mis neu fwy, a'r newid hwn sy'n gyfrifol am y cynnydd yn y niferoedd. Felly, ar sail tuedd pum mlynedd (2010 to 2014), byddai'n cynnwys 2010 a 2011 ar sail yr hen ddiffiniad a 2012 i 2014 ar sail y diffiniad newydd, a bydda'r cyfartaledd yn is. Felly, defnyddiwyd cyfartaledd tair blynedd.

### Gwahaniaethau rhwng Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol

Mae Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol[2] (NPP) yr ONS yn cael eu defnyddio yn yr Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol (SNPP). Maent yn cael eu defnyddio i nodi tueddiadau genedigaethau a marwolaethau (gwahaniaethau) yn y dyfodol, sy'n cael eu cymhwyso i ardaloedd awdurdodau lleol. Yn yr NPPs, mae'r ONS yn defnyddio cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau rhagamcanol i gyfrifo nifer y genedigaethau a marwolaethau rhagamcanol. Mae'r cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau ym mlwyddyn gyntaf yr amcanestyniadau yn cael eu haddasu i sicrhau bod nifer y genedigaethau a marwolaethau sy'n dilyn yn gyfartal â'r amcanestyniadau amodol sydd ar gael. Nid yw'r cyfraddau ar gyfer pobl blwyddyn sy'n dilyn yn newid. Yn y gorffennol, mae'r NPPs wedi'u defnyddio heb unrhyw addasiad, ond yn chwarter cyntaf 2015, roedd mwy o farwolaethau yn y DU o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol[3].

Ar ôl adolygu methodoleg yr ONS ar gyfer addasu blwyddyn gyntaf yr amcanestyniadau i fod yn ffigur gwirioneddol gyda WASP, penderfynwyd defnyddio gwahaniaethau 2014-15 heb unrhyw addasiadau iddynt (h.y. nifer rhagamcanol marwolaethau ar gyfer 2014-15 yn hytrach na'r nifer wedi'i addasu i gyfateb i'r ffigurau gwirioneddol). Effaith yr amcanestyniadau yw cynyddu poblogaeth ragamcanol yr holl Awdurdodau Lleol 2,000 yn 2015 (0.06%), sy'n gostwng i gynnydd o 400 yn 2039 (0.01%).

Mae Siart 2 yn dangos tueddiadau cyfraddau genedigaethau a marwolaethau o 2001-02 tan 2013-14 yng Nghymru, ac yna nifer y genedigaethau a marwolaethau a ragwelir, gan gynnwys nifer rhagamcanol y marwolaethau gyda'r addasiad ar gyfer 2014-15. Ac eithrio un flwyddyn pan gafodd


---

[2] http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/bulletins/nationalpopulationprojections/2015-10-29

[3] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/provisionalanalysisofdeathregistrations/2015

y niferoedd eu haddasu (2014-15), mae nifer rhagamcanol y marwolaethau bron yn union yr un fath rhwng y gyfres wedi'i haddasu a'r gyfres heb ei haddasu.


**Siart 2: Tueddiadau genedigaethau a marwolaethau, Cymru, 2001-02 tan 2038-39**



## Crynodebau o dueddiadau yn ôl awdurdod lleol

Mae'r siartiau isod yn dangos y newid yn y ganran o 2014 dros gyfnod yr amcanestyniadau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Defnyddir yr un raddfa ar bob siart, ac mae llinell ddu yn nodi na fu unrhyw newid. Er enghraifft, er mai ychydig iawn o newid a ragwelir ar gyfer poblogaeth Bro Morgannwg rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu'n raddol, ac y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu ychydig yn ystod y 15 mlynedd gyntaf ac yna'n gostwng hyd at 2039.

**Siart 3: Newid canrannol yng nghyfanswm y boblogaeth o 2014 (hyd at 2039)**



## Sylwadau ar Awdurdodau Lleol

*Ynys Môn*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn gostwng bron i 2,000 (neu 2.6 y cant). Er yr amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran iau yn gostwng, amcanestynnir y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu tua 5,500. Newid naturiol sy'n gyfrifol am y newid (gostyngiad o 2,700) ond mae mudo net ychydig yn fwy na hyn.

*Gwynedd*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu ychydig yn fwy na 10,000 (neu 8.4 y cant). Bydd y boblogaeth 75 oed a throsodd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd, ac amcanestynnir y bydd y boblogaeth 85 oed a throsodd yn cynyddu 4,700 (122 y cant). Mae tua 75 y cant o'r cynnydd a ragwelir i'w briodoli i fudo net (7,800), bydd mudwyr o dramor yn cynyddu 11,600, mudwyr o'r DU yn gostwng 3,800 a bydd newid naturiol yn cynyddu 2,600. Hefyd, dim ond yng Ngwynedd a Cheredigion yr amcanestynnir y bydd yr oedran canolrif yn gostwng.

*Conwy*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Conwy yn cynyddu bron i 2,000 (neu 1.7 y cant). Er yr amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran iau yn disgyn, amcanestynnir y bydd y boblogaeth 75 oed a throsodd yn cynyddu tua 10,000. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 12,600 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo mewnol) a bydd newid naturiol yn gostwng 10,600.

*Sir Ddinbych*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu tua 2,500 (neu 2.7 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp oedran 11-17 yn cynyddu ychydig, tra y bydd poblogaeth y grŵp oedran 0-10 oed yn gostwng ychydig. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp oedran 75 a throsodd yn cynyddu 7,500 a bydd poblogaeth y rhai rhwng 18 a 74 oed yn gostwng 4,800. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 6,600 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo mewnol) a bydd newid naturiol yn gostwng 4,100.

*Sir y Fflint*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir y Fflint yn cynyddu tua 2,100 (neu 1.3 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran o dan 59 (menywod)/64 (dynion) yn gostwng. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth 75 oed a throsodd yn cynyddu 13,300. Bydd mudo net yn gyfrifol am ostyngiad o 1,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo mewnol) a bydd newid naturiol yn gyfrifol am gynnydd arall o 3,000.

*Wrecsam*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Wrecsam yn cynyddu tua 13,300 (neu 9.7 y cant). Hwn yw'r cynnydd mwyaf ond un o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Amcanestynnir mai dim ond poblogaeth y grwpiau oedran 0-4 a 5-10 a fydd yn gostwng, a bydd y grwpiau oedran hŷn yn gweld y cynnydd mwyaf. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 8,600 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo rhyngwladol) a bydd newid naturiol yn gyfrifol am gynnydd arall o 4,700.

*Powys*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Powys yn gostwng tua 10,300 (neu 7.7 y cant). Hwn yw'r gostyngiad rhagamcanol mwyaf yng Nghymru. Amcanestynnir y bydd poblogaeth pob grŵp oedran yn gostwng ac eithrio'r grŵp oedran 75 a throsodd (amcanestynnir cynnydd o 13,100 ar gyfer y grŵp hwnnw). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 2,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo mewnol), ond mae hyn yn llawer llai na'r gostyngiad o 12,500 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Ceredigion*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Ceredigion yn cynyddu tua 6,600 (neu 8.8 y cant). Hwn yw'r pedwerydd cynnydd rhagamcanol mwyaf yng Nghymru. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn cynyddu ac eithrio'r grwpiau 16-17 oed a 60(menywod)/65(dynion) - 74 oed. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 7,300 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo rhyngwladol yn gyfrifol am ddwy ran o dair o'r cynnydd). Mae'r ffigur hwn ychydig yn is yn sgil gostyngiad o 600 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol. Hefyd, dim ond yng Ngheredigion a Gwynedd yr amcanestynnir y bydd yr oedran canolrif yn gostwng.

*Sir Benfro*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn gostwng tua 1,400 (neu 1.2 y cant). Hwn yw'r pumed gostyngiad rhagamcanol mwyaf yng Nghymru. Amcanestynnir y bydd poblogaeth pob grŵp oedran yn gostwng ac eithrio'r grŵp oedran 75 a throsodd (amcanestynnir cynnydd o 24,200 ar gyfer y grŵp hwnnw). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 6,300 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo mewnol); fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn llai na'r gostyngiad o 7,700 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Sir Gaerfyrddin*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu tua 4,004 (neu 2.2 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth pob grŵp oedran yn gostwng ac eithrio'r grŵp 60 (menywod)/65 (dynion) oed a throsodd (amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp hwn yn cynyddu 16,800). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 13,700 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd tua thri chwarter o'r cynnydd hwnnw yn deillio o fudo mewnol). Mae'r ffigur hwn yn fwy na'r gostyngiad o 9,600 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Abertawe*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu tua 22,000 (neu 9.0 y cant). Hwn yw'r trydydd cynnydd rhagamcanol mwyaf yng Nghymru. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn gostwng, a bydd poblogaeth y grŵp oedran 75 a throsodd yn cynyddu 15,000. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 18,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (ar sail mudo rhyngwladol), a bydd y boblogaeth yn cynyddu 3,600 oherwydd newid naturiol.

*Castell-nedd Port Talbot*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu tua 2,200 (neu 1.6 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth pob grŵp hŷn yn cynyddu, yn enwedig y grŵp 75 oed a throsodd (cynnydd o 10,300). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 4,800 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn deillio o fudo mewnol); mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad o 2,600 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Pen-y-bont ar Ogwr*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu tua 7,000 (neu 5.0 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y rhan fwyaf o'r grwpiau oedran yn cynyddu ac eithrio'r grwpiau oedran 16-17 a 18-59 (menywod)/60 (dynion). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 9,100 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r newid hwn). Mae'r cynnydd yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad o 2,000 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Bro Morgannwg*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu ychydig (500 neu 0.4 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) a throsodd) yn cynyddu, ond bydd poblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 1,600 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y newid hwn). Bydd y cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad o 1,100 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Caerdydd*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu'n fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Amcanestynnir y bydd yn cynyddu 90,400 (neu 25.5 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth pob grŵp oedran yn cynyddu. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 28,200 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (a bydd mudo rhyngwladol yn gyfrifol am bedair rhan o bump o'r newid hwn). Bydd cynnydd arall o 62,100 yn deillio o newid naturiol.

*Rhondda Cynon Taf*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 9,600 (neu 4.0 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran 5-15 a 60 (menywod)/65 (dynion) a throsodd yn cynyddu. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 1,800 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo rhyngwladol yn gyfrifol am hyn). Bydd cynnydd arall o 7,800 yn deillio o newid naturiol.

*Merthyr Tudful*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn gostwng ychydig (1,000 neu 1.7 y cant). Hwn yw'r pedwerydd gostyngiad mwyaf o ran canran. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) a throsodd) yn cynyddu, ond y bydd poblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn. Bydd mudo net yn gyfrifol am ostyngiad o

1,300 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y newid hwn). Bydd y ffigur hwn yn cael ei wrthbwyso ychydig gan gynnydd o 300 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Caerffili*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Caerffili yn cynyddu ychydig (2,000 neu 1.1 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) oed a throsodd) yn cynyddu, ond y bydd poblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth 75 a throsodd yn cynyddu 12,400. Bydd mudo net yn gyfrifol am ostyngiad o 2,800 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am ddwy ran o dair o'r newid hwn). Bydd y gostyngiad hwn yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd o 4,700 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol.

*Blaenau Gwent*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn gostwng 3,400 (neu 4.9 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) oed a throsodd) yn cynyddu, ond y bydd gostyngiad ym mhoblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn (yn enwedig y rhai rhwng 18-59 (menywod)/64 (dynion) oed. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp oedran 75 a throsodd yn cynyddu 4,300. Bydd mudo net yn gyfrifol am ostyngiad o 2,800 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y newid hwn). Bydd gostyngiad arall o 600 yn deillio o fudo mewnol.

*Torfaen*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Torfaen yn gostwng ychydig gan 400 (neu 0.4 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) oed a throsodd) yn cynyddu, ond y bydd gostyngiad ym mhoblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn. Amcanestynnir y bydd y boblogaeth 75 oed a throsodd yn cynyddu 6,700. Bydd mudo net yn gyfrifol am ostyngiad o 1,200 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y newid hwn). Bydd cynnydd o 800 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso hyn ychydig.

*Sir Fynwy*

Amcanestynnir na fydd llawer o wahaniaeth rhwng poblogaeth Sir Fynwy yn 2039 a 2014 (bydd cynnydd o 100 neu 0.1 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grwpiau oedran hŷn (60 (menywod)/65 (dynion) oed a throsodd) yn cynyddu, ond y bydd poblogaeth y grwpiau oedran eraill yn gwrthbwyso hyn. Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp 75 oed a throsodd yn cynyddu 10,300. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 8,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (bydd mudo mewnol yn gyfrifol am y newid hwn). Bydd gostyngiad o 7,900 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso hyn.

*Casnewydd*

Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu 11,700 (neu 7.9 y cant). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn cynyddu (ac eithrio'r grwpiau oedran 0-4 a 16-59 (menywod)/64 (dynion)). Amcanestynnir y bydd poblogaeth y grŵp 75

oed a throsodd yn cynyddu 8,600. Bydd newid naturiol yn gyfrifol am gynnydd o 12,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039: mae gostyngiad o 300 yn y boblogaeth oherwydd mudo yn gwrthbwyso hyn ychydig (mae cynnydd mewn mudo rhyngwladol yn cael ei wrthbwyso yn rhannol gan fudo mewnol).

## Cyfanswm rhagamcanol y boblogaeth

Mae Tabl 1 yn dangos, o ddefnyddio'r prif amcanestyniadau, yr amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth y rhan fwyaf o awdurdodau Cymru yn cynyddu rhwng 2014 a 2039.

Yn ôl amcanestyniadau, bydd poblogaethau Gwynedd, Wrecsam, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Chasnewydd yn cynyddu'n raddol rhwng 2014 a 2039. Mae disgwyl i boblogaeth Caerdydd ddringo uwchlaw 400,000 erbyn 2028. Yn 2014 roedd poblogaeth Caerdydd (yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru) 6 gwaith yn fwy na phoblogaeth y lleiaf (Merthyr Tudful). Erbyn 2039 amcanestynnir y bydd 7.7 gwaith yn fwy.

Ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Caerffili a Sir Fynwy, amcanestynnir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu erbyn tua 2029 ac yna'n gostwng, ond gan barhau'n uwch nag yr oedd yn 2014. Mae'r patrwm yn debyg ar gyfer Sir Benfro a Thorfaen ond amcanestynnir y bydd poblogaeth 2039 yn is nag ydoedd yn 2014. Ar gyfer Merthyr Tudful, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn dechrau gostwng yn 2025.

Yr awdurdodau lleol yr amcanestynnir y bydd eu poblogaeth yn gostwng yn raddol rhwng 2014 a 2039 yw Ynys Môn, Blaenau Gwent a Phowys. Roedd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 yn dangos y gostyngiad hwn ar gyfer Ynys Môn, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.

### Tabl 1: Cyfanswm rhagamcanol y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (Cymru), 2014-2039

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 70,200 | 70,200 | 70,100 | 69,700 | 69,100 | 68,300 |
| Gwynedd | 122,300 | 124,000 | 126,200 | 128,500 | 130,600 | 132,600 |
| Conwy | 116,300 | 117,000 | 117,900 | 118,500 | 118,600 | 118,200 |
| Sir Ddinbych | 94,800 | 95,700 | 96,700 | 97,300 | 97,400 | 97,300 |
| Sir y Fflint | 153,800 | 155,200 | 156,300 | 156,900 | 156,700 | 155,900 |
| Wrecsam | 136,700 | 139,800 | 142,800 | 145,500 | 147,900 | 150,000 |
| Powys | 132,700 | 131,700 | 130,600 | 128,800 | 126,000 | 122,400 |
| Ceredigion | 75,400 | 76,600 | 77,900 | 79,400 | 80,800 | 82,100 |
| Sir Benfro | 123,700 | 124,100 | 124,500 | 124,400 | 123,600 | 122,200 |
| Sir Gaerfyrddin | 184,900 | 186,400 | 188,000 | 189,000 | 189,300 | 188,900 |
| Abertawe | 241,300 | 245,800 | 250,700 | 255,400 | 259,500 | 262,900 |
| Castell-nedd Port Talbot | 140,500 | 141,500 | 142,500 | 143,100 | 143,100 | 142,700 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 141,200 | 143,300 | 145,300 | 146,800 | 147,800 | 148,300 |
| Bro Morgannwg | 127,700 | 128,400 | 129,100 | 129,300 | 129,000 | 128,100 |
| Caerdydd | 354,300 | 370,300 | 388,200 | 407,000 | 425,900 | 444,700 |
| Rhondda Cynon Taf | 236,900 | 238,900 | 241,500 | 243,700 | 245,300 | 246,500 |
| Merthyr Tudful | 59,100 | 59,300 | 59,300 | 59,200 | 58,700 | 58,100 |
| Caerffili | 179,900 | 181,300 | 182,500 | 183,000 | 182,800 | 181,900 |
| Blaenau Gwent | 69,700 | 69,400 | 69,000 | 68,400 | 67,400 | 66,300 |
| Tor-faen | 91,600 | 92,100 | 92,500 | 92,500 | 92,000 | 91,200 |
| Sir Fynwy | 92,300 | 93,100 | 93,700 | 93,900 | 93,500 | 92,500 |
| Casnewydd | 146,800 | 149,200 | 152,000 | 154,500 | 156,600 | 158,500 |

Mae Tabl 2 yn dangos, ar gyfer yr wyth awdurdod lleol sy'n dangos cynnydd rhagamcanol graddol yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (Gwynedd, Wrecsam, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar

Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd), fod canran y cynnydd yn amrywio o 4.0 y cant ar gyfer Rhondda Cynon Taf i 25.5 y cant ar gyfer Caerdydd (y mwyaf o bell ffordd), gyda chynnydd o tua 9 y cant ar gyfer y rhan fwyaf.

Roedd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 yn dangos yr un patrwm gyda chanran y cynnydd rhagamcanol yn y boblogaeth ar ei huchaf ar gyfer Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd, ac Abertawe.

Mae canran y cynnydd rhagamcanol dros 5 mlynedd ar gyfer Caerdydd yn fwy na'r newidiadau canrannol a ragwelir dros 25 mlynedd ar gyfer dros hanner yr awdurdodau lleol eraill. Mae canran y cynnydd rhagamcanol dros 10 mlynedd ar gyfer Caerdydd yn fwy na'r newidiadau canrannol a amcanestynnir dros 25 mlynedd ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol eraill.

Y tri awdurdod lleol yr amcanestynnir y bydd eu poblogaethau'n gostwng yn raddol rhwng 2014 a 2039 yw Ynys Môn (i lawr 2.6 y cant), Blaenau Gwent (4.9 y cant i lawr), a Phowys (7.7 y cant i lawr).

Yn hanner arall yr awdurdodau lleol, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu ac yna'n gostwng. Mae'r flwyddyn y bydd y cynnydd yn dod i ben a'r gostyngiad yn dechrau yn amrywio: 2025 ar gyfer Merthyr Tudful, 2027 ar gyfer Torfaen a Sir Benfro; 2029 ar gyfer Sir Fynwy; 2030 ar gyfer Bro Morgannwg; 2031 ar gyfer Sir y Fflint a Chaerffili; 2033 ar gyfer Castell-nedd Port Talbot; 2034 ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chonwy; a 2035 ar gyfer Sir Ddinbych.

O gymharu â'r newidiadau canrannol ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011, mae'r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 yn eithaf gwahanol. Mae'r newid canrannol rhagamcanol yn uwch ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer Gwynedd, Conwy, Ceredigion, Rhondda Cynon Taf a Sir Fynwy. Mae'r newid canrannol rhagamcanol yn is ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer Sir Ddinbych, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Blaenau Gwent, Torfaen, a Sir Fynwy; ac yn is o lawer ar gyfer Wrecsam, Powys, Sir Gaerfyrddin, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, a Chasnewydd. Roedd yr amcanestyniadau'n debyg ar gyfer Ynys Môn, Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili.

**Tabl 2: Y newid canrannol rhagamcanol yng nghyfanswm y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol o gymharu â 2014 (canrannau)**

| | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0.01 | -0.11 | -0.64 | -1.53 | -2.59 |
| Gwynedd | 1.44 | 3.18 | 5.06 | 6.82 | 8.43 |
| Conwy | 0.65 | 1.41 | 1.90 | 1.98 | 1.66 |
| Sir Ddinbych | 0.99 | 2.00 | 2.62 | 2.77 | 2.67 |
| Sir y Fflint | 0.90 | 1.65 | 2.00 | 1.86 | 1.34 |
| Wrecsam | 2.22 | 4.42 | 6.40 | 8.15 | 9.70 |
| Powys | -0.72 | -1.58 | -2.95 | -5.02 | -7.73 |
| Ceredigion | 1.51 | 3.30 | 5.24 | 7.08 | 8.79 |
| Sir Benfro | 0.39 | 0.70 | 0.60 | -0.04 | -1.17 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.83 | 1.69 | 2.25 | 2.39 | 2.17 |
| Abertawe | 1.87 | 3.90 | 5.83 | 7.52 | 8.97 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.71 | 1.41 | 1.84 | 1.87 | 1.58 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.46 | 2.87 | 3.95 | 4.63 | 4.99 |
| Bro Morgannwg | 0.58 | 1.08 | 1.29 | 1.03 | 0.35 |
| Caerdydd | 4.52 | 9.56 | 14.88 | 20.20 | 25.51 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.87 | 1.94 | 2.86 | 3.55 | 4.05 |
| Merthyr Tudful | 0.32 | 0.47 | 0.16 | -0.59 | -1.70 |
| Caerffili | 0.75 | 1.42 | 1.71 | 1.57 | 1.10 |
| Blaenau Gwent | -0.43 | -0.94 | -1.87 | -3.26 | -4.90 |
| Tor-faen | 0.52 | 0.96 | 0.93 | 0.41 | -0.41 |
| Sir Fynwy | 0.80 | 1.47 | 1.72 | 1.28 | 0.13 |
| Casnewydd | 1.64 | 3.48 | 5.18 | 6.65 | 7.93 |

## Cyfanswm rhagamcanol y boblogaeth – newidiadau yn ôl oedran

Mae Siart 4 yn dangos bod disgwyl i'r grŵp oedran 0-17 ostwng mewn un deg pedwar awdurdod lleol yng Nghymru rhwng 2014 a 2039. Mae'r gostyngiad mwyaf ym Mhowys (i lawr 17.1 y cant). O'r wyth awdurdod lleol gyda chynnydd, amcanestynnir y cynnydd mwyaf o bell ffordd yng Nghaerdydd (i fyny 30.2 y cant), ac yna Ceredigion (i fyny 8.9 y cant).


Rhwng 2014 a 2039, amcanestynnir y bydd y rhai 18-74 oed yn gostwng ym mhob awdurdod lleol bron (17 o blith y 22) gyda'r gostyngiad mwyaf ym Mhowys (20.6 y cant) a Sir Fynwy (11.8 y cant) gyda'r rhan fwyaf yn gweld gostyngiad o 6 i 10 y cant. Ni amcanestynnir fawr o newid yng Ngwynedd. Roedd yr unig gynnydd rhagamcanol yng Nghasnewydd, Wrecsam ac Abertawe, gyda chynnydd o ddau i bedwar y cant, ac yng Nghaerdydd (18.7 y cant, y cynnydd mwyaf o dipyn).

Ym mhob awdurdod lleol rhwng 2014 a 2039 amcanestynnir y bydd poblogaethau pobl 75 oed a hŷn yn cynyddu'n sylweddol, a dyma sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o dwf rhagamcanol y boblogaeth. Mae'r cynnydd ar gyfer y grŵp oedran 75 i 84 yn amrywio o 37.8 y cant yng Ngwynedd i 75.5 y cant yn Sir Fynwy; ac ar gyfer y grŵp 85 oed a hŷn mae'n amrywio o 111.8 y cant yng Nghonwy i 206.7 y cant yn Sir y Fflint.

Amcanestynnir mai Powys fydd yn gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl 85 oed neu'n hŷn yn ei phoblogaeth, o 3.4 y cant yn 2014 i 9.5 y cant yn 2039, ac amcanestynnir mai Caerdydd fydd yn gweld y cynnydd lleiaf (o 2.0 y cant i 3.5 y cant).

Mae disgwyl i'r oedran canolrifol gynyddu ar gyfer dynion a menywod ar gyfer pob awdurdod lleol ar wahân i Wynedd (dynion yn gostwng o 42 i 40 oed a menywod yn gostwng o 45 i 43) a Cheredigion (dynion yn gostwng o 41 i 37 a menywod yn gostwng o 45 i 42), gyda'r rhan fwyaf yn cynyddu rhwng dwy a phum mlynedd. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Mhowys (o 47 i 54 ar gyfer dynion ac o 49 i 57 ar gyfer menywod) a Sir Fynwy (o 46 i 52 ar gyfer dynion a 48 i 56 ar gyfer menywod).

**Siart 4: Y newid rhagamcanol yng nghyfanswm y boblogaeth fesul awdurdod lleol o gymharu â 2014 yn ôl oedran**



## Mudo tybiedig

Mae mudo'n cyfeirio at bobl yn symud o ac i awdurdod lleol boed o dramor, o ran arall o'r DU, neu o awdurdod lleol arall yng Nghymru. Mae'r lefelau tybiedig o fudo mewnol a rhyngwladol yn seiliedig ar y niferoedd cyfartalog o fudwyr ar gyfer y pum mlynedd hyd at ganol 2014 a gedwir yn ddigyfnewid am gyfnod yr amcanestyniad.

Gan fod lefelau mudo yn gallu amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae'r amcanestyniadau o lefelau mudo yn ansicr hefyd ac maent yn dibynnu ar lu o ffactorau eraill. Yn yr un modd â genedigaethau a marwolaethau, dim ond i ystyried effaith gwahanol lefelau mudo yn cynnwys newid naturiol y gellir defnyddio'r amcanestyniadau amrywiadol a hynny gan ddefnyddio cyfartaledd dros ddeng mlynedd.

Mae Tabl 3 yn dangos o dan y prif amcanestyniadau fod y niferoedd tybiedig ar gyfer mudwyr mewnol i mewn ac allan rhwng dwy a chwe mil ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gyffredinol: ychydig yn is ar gyfer Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, ychydig yn uwch ar gyfer Abertawe, ac yn uwch o lawer ar gyfer Caerdydd. Ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 roedd y niferoedd tybiedig o fudwyr mewnol i mewn ac allan yn debyg ar gyfer yr awdurdodau lleol i gyd ac yn dilyn yr un patrwm.

Mae mudo mewnol net yn gymharol fach (o gymharu â'r niferoedd sy'n symud i mewn ac allan) gan amrywio rhwng 600 a -300. Mae'n tueddu i fod ychydig yn bositif (mwy o bobl yn symud i mewn nag sy'n symud allan) ar gyfer ardaloedd gwledig ac ychydig yn negyddol ar gyfer ardaloedd trefol. Ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011, roedd mudo mewnol net o fewn yr un rhychwant ar gyfer pob awdurdod lleol ac eithrio Sir Gaerfyrddin (800) a Rhondda Cynon Taf (-500).

Mae mudo rhyngwladol net yn amrywio rhwng 400 a -100 ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac eithrio Caerdydd (900), Abertawe (800), a Gwynedd (500). Ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 roedd mudo rhyngwladol net yn dilyn patrwm tebyg er ei fod fymryn yn is ar gyfer Gwynedd a mymryn yn uwch ar gyfer Wrecsam.

Effaith gyfunol y tybiaethau hyn ar gyfer mudo mewnol a rhyngwladol yw bod cyfanswm y mudo net blynyddol rhagamcanol yn amrywio o 400 i -100 ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac eithrio Caerdydd (1,100), Abertawe (700), Sir Gaerfyrddin (500), a Chonwy (500). Ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 roedd mudo net cyffredinol yn dilyn patrwm tebyg er ei fod dwbl ar gyfer Caerdydd a Sir Gaerfyrddin ac yn negyddol ar gyfer llai o awdurdodau lleol.

**Tabl 3: Mudo blynyddol tybiedig yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, prif amcanestyniadau, 2014-2039**

| | Mewnol | | | Rhyngwladol | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn | Allan | Net | Yn | Allan | Net | Yn | Out | Net |
| Ynys Môn | 2,300 | 2,300 | 0 | 100 | 100 | 0 | 2,400 | 2,400 | 0 |
| Gwynedd | 5,600 | 5,700 | -200 | 1,000 | 600 | 500 | 6,600 | 6,300 | 300 |
| Conwy | 4,800 | 4,200 | 600 | 300 | 400 | -100 | 5,000 | 4,500 | 500 |
| Sir Ddinbych | 4,500 | 4,200 | 300 | 200 | 200 | 0 | 4,700 | 4,400 | 300 |
| Sir y Fflint | 4,600 | 4,700 | -100 | 400 | 300 | 100 | 5,000 | 5,000 | 0 |
| Wrecsam | 3,900 | 4,000 | -100 | 800 | 400 | 400 | 4,700 | 4,400 | 300 |
| Powys | 5,200 | 5,000 | 100 | 300 | 300 | -100 | 5,500 | 5,400 | 100 |
| Ceredigion | 5,800 | 5,800 | 100 | 600 | 400 | 200 | 6,500 | 6,200 | 300 |
| Sir Benfro | 3,900 | 3,600 | 300 | 300 | 300 | 0 | 4,200 | 4,000 | 300 |
| Sir Gaerfyrddin | 6,100 | 5,700 | 400 | 500 | 300 | 100 | 6,600 | 6,100 | 500 |
| Abertawe | 9,300 | 9,400 | -100 | 1,900 | 1,100 | 800 | 11,200 | 10,500 | 700 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4,000 | 3,900 | 200 | 200 | 100 | 0 | 4,200 | 4,000 | 200 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4,000 | 3,600 | 400 | 200 | 200 | 0 | 4,200 | 3,800 | 400 |
| Bro Morgannwg | 4,700 | 4,600 | 100 | 200 | 300 | -100 | 5,000 | 4,900 | 100 |
| Caerdydd | 19,800 | 19,600 | 200 | 4,700 | 3,800 | 900 | 24,500 | 23,400 | 1,100 |
| Rhondda Cynon Taf | 6,300 | 6,600 | -300 | 800 | 500 | 400 | 7,100 | 7,000 | 100 |
| Merthyr Tudful | 1,400 | 1,600 | -100 | 200 | 100 | 100 | 1,600 | 1,600 | -100 |
| Caerffili | 4,400 | 4,500 | -100 | 100 | 200 | 0 | 4,500 | 4,600 | -100 |
| Blaenau Gwent | 1,700 | 1,800 | -100 | 100 | 100 | 0 | 1,700 | 1,800 | -100 |
| Tor-faen | 2,300 | 2,400 | -100 | 100 | 100 | 0 | 2,400 | 2,500 | 0 |
| Sir Fynwy | 4,200 | 3,800 | 400 | 200 | 300 | -100 | 4,400 | 4,100 | 300 |
| Casnewydd | 5,300 | 5,400 | -200 | 900 | 700 | 100 | 6,100 | 6,200 | 0 |

Noder: Efallai na fydd rhifau'n symio'n union oherwydd talgrynnu.

## Genedigaethau a marwolaethau rhagamcanol

Mae methodoleg Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu niferoedd rhagamcanol o enedigaethau a marwolaethau yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Cymru. Mae'r niferoedd rhagamcanol o enedigaethau a marwolaethau yn seiliedig ar y cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau cyfartalog ar gyfer y pum mlynedd hyd at ganol 2014 ac ar y tueddiadau tybiedig o Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru. Fel y nodwyd yn gynharach yn y datganiad hwn, cafodd yr Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol eu haddasu ar gyfer 2014-15 i fod yn ffigurau rhagamcanol yn hytrach na ffigurau gwirioneddol. Y newid naturiol rhagamcanol yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy, h.y. mae tynnu marwolaethau o enedigaethau yn hafal i newid naturiol.

Mae Tablau 4a a 4b, ar sail y tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau yn y prif amcanestyniadau, yn dangos bod mwy o farwolaethau na genedigaethau mewn traean o awdurdodau lleol yn y flwyddyn rhwng canol 2014 a chanol 2015. Ar gyfer dwy flynedd ganolraddol, canol 2022 i ganol 2023 a chanol 2030 i ganol 2031, yr amcanestyniad y byddai mwy o farwolaethau na genedigaethau ar gyfer tua hanner yr awdurdodau lleol. Erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau, amcanestynnir y bydd hyn yn wir am oddeutu dau o bob tri awdurdod lleol.

Mae cymharu'r ddau gyfnod yn dangos tuedd gyffredinol (gydag ambell eithriad) i awdurdodau lleol weld lleihad mewn newid naturiol. Yr eithriad mwyaf amlwg yw Caerdydd ((+1,900 i +2,600). Roedd y lleihad mwyaf ym Mhowys (-300 i -900) a Sir y Fflint (+300 i -200)

Ar gyfer y flwyddyn o ganol 2014 i ganol 2015 roedd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 yn dangos bod nifer tebyg o awdurdodau lleol lle'r oedd mwy o farwolaethau na genedigaethau nag ym mlwyddyn gyntaf yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 (canol 2011 i ganol 2012). Erbyn diwedd y ddau gyfnod amcanestyniadau (seiliedig ar 2011 a seiliedig ar 2014) roedd y patrymau bron yn union yr un fath o hyd.

O ganlyniad i ddefnyddio tueddiadau o'r Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol yn y dybiaeth farwolaethau mae yna welliant tybiedig mewn cyfraddau marwolaethau oed-benodol trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau. Er hynny amcanestynnir y bydd y cynnydd mewn marwolaethau a ddangosir yn Nhablau 4a a 4b i lawer o awdurdodau yn digwydd o ganlyniad i gynnydd ym mhoblogaethau hŷn awdurdodau lleol dros gyfnod yr amcanestyniadau. Effaith hyn a'r tybiaethau mudo a ffrwythlondeb a ddefnyddiwyd yn y prif amcanestyniadau yw y bydd unrhyw dwf yn y boblogaeth i nifer gynyddol o awdurdodau yn ganlyniad i fudo net erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau.

Amcanestynnir y bydd mudo positif a newid naturiol negyddol mewn un ar ddeg awdurdod lleol, ac amcanestynnir y bydd gan bump fudo negyddol a newid naturiol positif. O blith y gweddill, Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod lleol i fod â mudo negyddol a newid naturiol negyddol. Amcanestynnir mudo positif a newid naturiol positif yng Ngwynedd, Wrecsam, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

**Tabl 4a: Genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol rhagamcanol yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, prif amcanestyniadau, 2014-2023**

| | Canol 2014-15 | | | Canol 2022-23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol |
| Ynys Môn | 800 | 800 | 0 | 700 | 800 | -100 |
| Gwynedd | 1,200 | 1,200 | 0 | 1,300 | 1,200 | 100 |
| Conwy | 1,100 | 1,500 | -400 | 1,100 | 1,400 | -300 |
| Sir Ddinbych | 1,100 | 1,200 | -100 | 1,100 | 1,100 | -100 |
| Sir y Fflint | 1,700 | 1,300 | 300 | 1,700 | 1,400 | 300 |
| Wrecsam | 1,600 | 1,300 | 300 | 1,600 | 1,400 | 300 |
| Powys | 1,200 | 1,500 | -300 | 1,200 | 1,500 | -300 |
| Ceredigion | 600 | 700 | -100 | 700 | 700 | 0 |
| Sir Benfro | 1,200 | 1,400 | -200 | 1,200 | 1,400 | -200 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,800 | 2,100 | -300 | 1,800 | 2,100 | -200 |
| Abertawe | 2,500 | 2,300 | 100 | 2,600 | 2,300 | 300 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,500 | 1,500 | 0 | 1,500 | 1,500 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,500 | 1,500 | 0 | 1,500 | 1,500 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1,300 | 1,200 | 100 | 1,300 | 1,200 | 100 |
| Caerdydd | 4,600 | 2,700 | 1,900 | 5,100 | 2,600 | 2,500 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,800 | 2,500 | 300 | 2,900 | 2,400 | 500 |
| Merthyr Tudful | 700 | 600 | 100 | 600 | 600 | 100 |
| Caerffili | 2,100 | 1,700 | 400 | 2,100 | 1,800 | 300 |
| Blaenau Gwent | 800 | 800 | 0 | 800 | 700 | 0 |
| Tor-faen | 1,100 | 900 | 100 | 1,000 | 900 | 100 |
| Sir Fynwy | 700 | 900 | -200 | 800 | 1,000 | -200 |
| Casnewydd | 1,800 | 1,400 | 500 | 1,900 | 1,300 | 600 |

Noder: Efallai na fydd rhifau'n symio'n union oherwydd talgrynnu.

**Tabl 4b: Genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol rhagamcanol yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, prif amcanestyniadau, 2030-2039**

| | Canol 2030-31 | | | Canol 2038-39 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol |
| Ynys Môn | 700 | 800 | -200 | 700 | 900 | -200 |
| Gwynedd | 1,400 | 1,300 | 100 | 1,400 | 1,300 | 100 |
| Conwy | 1,000 | 1,500 | -500 | 1,000 | 1,600 | -600 |
| Sir Ddinbych | 1,000 | 1,200 | -200 | 1,000 | 1,300 | -300 |
| Sir y Fflint | 1,600 | 1,600 | 0 | 1,600 | 1,700 | -200 |
| Wrecsam | 1,600 | 1,500 | 100 | 1,700 | 1,600 | 100 |
| Powys | 1,100 | 1,700 | -600 | 900 | 1,800 | -900 |
| Ceredigion | 800 | 800 | 0 | 800 | 800 | 0 |
| Sir Benfro | 1,100 | 1,500 | -400 | 1,100 | 1,600 | -600 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,800 | 2,200 | -500 | 1,800 | 2,400 | -700 |
| Abertawe | 2,500 | 2,400 | 100 | 2,500 | 2,600 | -100 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,400 | 1,600 | -200 | 1,400 | 1,700 | -300 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,500 | 1,600 | -200 | 1,500 | 1,800 | -300 |
| Bro Morgannwg | 1,200 | 1,300 | -100 | 1,200 | 1,500 | -300 |
| Caerdydd | 5,400 | 2,800 | 2,600 | 5,700 | 3,100 | 2,600 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,800 | 2,500 | 300 | 2,800 | 2,700 | 100 |
| Merthyr Tudful | 600 | 600 | 0 | 600 | 700 | -100 |
| Caerffili | 800 | 800 | 0 | 800 | 800 | 0 |
| Blaenau Gwent | 900 | 800 | -100 | 700 | 800 | -100 |
| Tor-faen | 700 | 1,000 | 0 | 900 | 1,000 | -100 |
| Sir Fynwy | 700 | 1,100 | -400 | 600 | 1,200 | -600 |
| Casnewydd | 1,900 | 1,400 | 500 | 1,900 | 1,500 | 400 |

Noder: Efallai na fydd rhifau'n symio'n union oherwydd talgrynnu.

## Cymharu â’r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol a oedd yn seiliedig ar 2011

Mae’r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy’n seiliedig ar 2014 yn disodli’r set flaenorol o amcanestyniadau lefel awdurdodau lleol Cymru a oedd yn seiliedig ar 2011 (maent yn seiliedig ar ddata mwy diweddar).

Mae Tabl 5 yn dangos y gwahaniaethau yng nghyfanswm y boblogaeth yn 2014 a 2036 o dan y setiau o amcanestyniadau seiliedig ar 2011 a seiliedig ar 2014.

### Tabl 5: Cyfanswm rhagamcanol y boblogaeth ar gyfer 2014 a 2036, ar sail yr amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2011 a seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol Cymru

| | Rhagwelir y bydd cyfanswm poblogaeth | | | | Newid canrannol mewn cyfanswm poblogaeth 2014-2036 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 | | 2036 | | | |
| | 2011-seiliedig ar | 2014-seiliedig ar | 2011-seiliedig ar | 2014-seiliedig ar | 2011-seiliedig ar | 2014-seiliedig ar |
| Ynys Môn | 70,100 | 70,200 | 68,200 | 68,800 | -2.6 | -1.9 |
| Gwynedd | 122,400 | 122,300 | 130,900 | 131,400 | 6.9 | 7.5 |
| Conwy | 115,800 | 116,300 | 115,700 | 118,500 | -0.1 | 1.9 |
| Sir Ddinbych | 95,100 | 94,800 | 101,800 | 97,400 | 7.1 | 2.7 |
| Sir y Fflint | 153,800 | 153,800 | 154,900 | 156,400 | 0.7 | 1.7 |
| Wrecsam | 138,900 | 136,700 | 164,100 | 148,700 | 18.1 | 8.8 |
| Powys | 134,000 | 132,700 | 135,100 | 124,700 | 0.8 | -6.0 |
| Ceredigion | 75,800 | 75,400 | 77,800 | 81,300 | 2.6 | 7.8 |
| Sir Benfro | 123,600 | 123,700 | 126,800 | 123,100 | 2.5 | -0.4 |
| Sir Gaerfyrddin | 186,900 | 184,900 | 204,900 | 189,200 | 9.7 | 2.3 |
| Abertawe | 242,500 | 241,300 | 268,700 | 260,900 | 10.8 | 8.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 140,600 | 140,500 | 142,500 | 143,000 | 1.4 | 1.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 141,600 | 141,200 | 151,500 | 148,000 | 7.0 | 4.8 |
| Bro Morgannwg | 128,100 | 127,700 | 134,100 | 128,700 | 4.7 | 0.8 |
| Caerdydd | 358,000 | 354,300 | 455,300 | 433,400 | 27.2 | 22.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 235,200 | 236,900 | 235,400 | 245,800 | 0.1 | 3.8 |
| Merthyr Tudful | 59,600 | 59,100 | 62,700 | 58,500 | 5.2 | -1.0 |
| Caerffili | 180,100 | 179,900 | 182,800 | 182,500 | 1.5 | 1.4 |
| Blaenau Gwent | 69,500 | 69,700 | 65,300 | 67,000 | -6.0 | -3.9 |
| Tor-faen | 91,600 | 91,600 | 92,400 | 91,700 | 0.8 | 0.1 |
| Sir Fynwy | 91,900 | 92,300 | 90,700 | 93,200 | -1.2 | 0.9 |
| Casnewydd | 148,600 | 146,800 | 171,200 | 157,400 | 15.2 | 7.2 |

Bydd gwahaniaethau rhwng y ddwy set o amcanestyniadau mae’n debyg o ganlyniad i:

- newidiadau mewn tueddiadau hanesyddol o ran ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo
- gwahaniaethau ym methodoleg yr amcangyfrifon poblogaeth sylfaenol
- y blynyddoedd sylfaen gwahanol a ddefnyddiwyd

Mae Tabl 5 yn dangos bod y twf rhagamcanol yng nghyfanswm y boblogaeth i ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol rhwng 2014 a 2036 yn is o dan yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 nag o dan yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011. Roedd y gostyngiadau mwyaf yn Wrecsam (o gynnydd o 18.1 y cant i gynnydd o 8.8 y cant), Casnewydd (15.2 y cant i 7.2 y cant), Sir Gaerfyrddin (9.7 y cant i 2.3 y cant), Powys (o gynnydd o 0.8 y cant i ostyngiad o 6.0 y cant), a Merthyr Tudful (o gynnydd o 5.2 y cant i ostyngiad o 1.0 y cant). Roedd y ddau gynnydd mwyaf ar gyfer Ceredigion (o gynnydd o 2.6 y cant i gynnydd o 7.8 y cant) a Rhondda Cynon Taf (o gynnydd o 0.1 y cant i gynnydd o 3.8 y cant). Ar gyfer tri awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot, Caerffili a Thorfaen), roedd yr amcanestyniadau’n debyg.

## Cymharu â'r amcangyfrifon canol blwyddyn

Gellir cymharu amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol seiliedig ar 2014 â'r amcangyfrifon canol blwyddyn a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon yw'r ddwy set o ffigurau ac o'u cymharu, mae modd asesu'r gwahaniaethau rhwng y ddwy. Mae Tabl 6 yn dangos y gwahaniaethau yng nghyfanswm y boblogaeth yn 2015 ar gyfer yr amcanestyniadau is-genedlaethol seiliedig ar 2014 a'r amcangyfrifon canol blwyddyn a hefyd ar gyfer 2012 ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol seiliedig ar 2011.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn debyg yn y ddwy set; er hynny roedd y gwahaniaethau'n fwy ar gyfer rhai. Ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol 2012 a 2015, roedd y gwahaniaethau yr un fath at ei gilydd (0.2 y cant).

Yr awdurdodau lleol â'r gwahaniaeth mwyaf yn 2015 oedd Ceredigion, Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr a Chasnewydd. Ar gyfer yr ardaloedd hynny, mudo mewnol neu ryngwladol sydd wrth wraidd y rhan fwyaf o'r newid hwnnw.

**Tabl 6: Cymharu amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2012 a 2015 gydag amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol 2011 a 2014**

| | 2015 | | | 2012 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014 seiliedig ar SNPP | MYE | | 2011 based SNPP | MYE | |
| Ynys Môn | 70,200 | 70,000 | 0.3% | 70,000 | 70,000 | -0.1% |
| Gwynedd | 122,600 | 122,900 | -0.2% | 121,800 | 122,100 | -0.3% |
| Conwy | 116,400 | 116,200 | 0.2% | 115,500 | 115,500 | 0.0% |
| Sir Ddinbych | 95,000 | 94,700 | 0.3% | 94,300 | 94,100 | 0.3% |
| Sir y Fflint | 154,100 | 154,100 | 0.0% | 153,000 | 152,700 | 0.2% |
| Wrecsam | 137,300 | 136,600 | 0.5% | 136,300 | 135,900 | 0.3% |
| Powys | 132,500 | 132,600 | -0.1% | 133,400 | 133,000 | 0.3% |
| Ceredigion | 75,600 | 74,600 | 1.3% | 75,400 | 76,000 | -0.8% |
| Sir Benfro | 123,800 | 123,500 | 0.2% | 122,900 | 123,000 | -0.1% |
| Sir Gaerfyrddin | 185,200 | 185,100 | 0.0% | 184,900 | 184,300 | 0.3% |
| Abertawe | 242,200 | 242,400 | -0.1% | 239,900 | 239,600 | 0.1% |
| Castell-nedd Port Talbot | 140,700 | 141,000 | -0.2% | 140,100 | 140,100 | 0.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 141,600 | 142,100 | -0.3% | 140,100 | 139,700 | 0.3% |
| Bro Morgannwg | 127,800 | 127,600 | 0.2% | 127,100 | 126,800 | 0.2% |
| Caerdydd | 357,400 | 357,200 | 0.1% | 349,500 | 348,500 | 0.3% |
| Rhondda Cynon Taf | 237,200 | 237,400 | -0.1% | 234,600 | 235,600 | -0.4% |
| Merthyr Tudful | 59,100 | 59,300 | -0.4% | 59,100 | 58,900 | 0.3% |
| Caerffili | 180,200 | 180,200 | 0.0% | 179,200 | 179,000 | 0.1% |
| Blaenau Gwent | 69,600 | 69,500 | 0.1% | 69,700 | 69,800 | -0.2% |
| Tor-faen | 91,700 | 91,800 | -0.1% | 91,300 | 91,400 | -0.1% |
| Sir Fynwy | 92,500 | 92,500 | 0.0% | 91,600 | 91,700 | 0.0% |
| Casnewydd | 147,300 | 147,800 | -0.3% | 146,700 | 146,100 | 0.4% |
| **Gwahaniaeth canran absoliwt cymedrig** | | | **0.23%** | | | **0.24%** |


*Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, Llywodraeth Cymru ac amcangyfrifon Canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## Cymharu ag Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol 2014

Gellir cymharu swm yr amcanestyniadau o boblogaeth awdurdodau lleol seiliedig ar 2014 gydag Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol 2014 sy'n cael eu paratoi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae Siart 5 yn dangos swm yr awdurdodau lleol o'r Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol gydag amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol yr ONS. Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol sy'n cael eu paratoi gan yr ONS ychydig yn uwch (20,600) na swm yr amcanestyniadau Awdurdod Lleol yn 2039, sy'n 0.6 y cant. Mae nifer o resymau pam y bydd gwahaniaethau rhwng y ddau amcanestyniad; mae'r rhain yn cael eu disgrifio'n fanylach yn yr adroddiad technegol.

**Siart 5: Poblogaeth ragamcanol Cymru, 2014 i 2039**



## Amcanestyniadau amrywiadol

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrif o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau sy'n cael eu gwneud fel hyn yn ystyried effaith polisïau llywodraeth leol neu lywodraeth ganolog ar lefelau neu ddosbarthiad y boblogaeth yn y dyfodol; maent yn dangos beth y mae disgwyl iddo ddigwydd os yw'r tueddiadau hyn yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 hyn yn amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau ar gyfer y cyfnod o 25 mlynedd o 2014 i 2039. Gan eu bod yn seiliedig ar dueddiadau, maent yn mynd yn llai sicr po bellaf i'r dyfodol rydym ni'n edrych. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer 2014.

I ddangos yr ansicrwydd sy'n mynd law yn llaw â newid demograffig yn y dyfodol wrth baratoi set o amcanestyniadau, mae modd paratoi prif amcanestyniad ar sail set o dybiaethau y cytunwyd arnynt, ynghyd â nifer o amrywiolion sy'n seiliedig ar dybiaethau eraill. Ar gyfer yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol seiliedig ar 2014, cynhyrchwyd pedwar amrywiolyn ynghyd â'r prif amcanestyniad ar gyfer pob awdurdod. Maent yn dangos sut mae amrywiadau posibl yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau.

Y pedwar amcanestyniad amrywiadol a ddefnyddir yw:


- Amrywiolyn poblogaeth uwch sy'n seiliedig ar dybiaethau'n ymwneud â chyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.
- Amrywiolyn poblogaeth is sy'n seiliedig ar dybiaethau yn ymwneud â chyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaethau uwch.
- Amrywiolyn lle mae'r rhagdybiaeth mudo yn seiliedig ar fudo cyfartalog dros gyfnod deng mlynedd hwy.
- Amrywiolyn dim mudo (neu 'newid naturiol yn unig') i ddangos poblogaeth ragamcanol pob awdurdod lleol pe na bai unrhyw fudo i mewn nac allan yn y dyfodol.

Mae'r gwahaniaethau rhwng yr 'amrywiolyn uchel' a'r prif amcanestyniad ar gyfer awdurdodau lleol tua 4,600 ar gyfartaledd, a'r gwahaniaeth rhwng yr 'amrywiolyn isel' a'r prif amcanestyniad tua 5,900 yng nghanol 2039.

Mae Siart 6 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y pedwar amrywiolyn a'r prif amcanestyniad ar gyfer Cymru. Dylid nodi nad yw'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol wedi'u cynllunio i gael ei defnyddio fel amcanestyniad ar gyfer Cymru (h.y. adio'r awdurdodau lleol), felly mae'r siart hwn yn dangos y gwahaniaethau hynny. Am ddadansoddiadau mwy cyflawn o'r amrywiolion, trowch at y datganiad amrywiolion.

Mae'r data ar gyfer yr amcanestyniadau amrywiol wedi'u cyhoeddi gyda'r datganiad hwn. Cyhoeddir bwletin ystadegol yn rhoi sylwebaeth ar yr amrywiadau ar 5 Hydref.

**Siart 6: Newid canrannol rhagamcanol yng nghyfanswm poblogaeth Cymru yn ôl amrywiolyn**



## Gwybodaeth ansawdd allweddol

### Cefndir

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Yn gyffredinol, mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf. Nid ydynt yn rhagolygon ac nid ydynt yn ceisio rhagweld effeithiau posibl polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol, neu newidiadau yn ffordd o fyw'r boblogaeth.

Gall cydrannau newid yn y boblogaeth y mae amcanestyniadau yn seiliedig arnynt gael eu heffeithio gan newidiadau yn yr economi ac yn ffordd o fyw'r boblogaeth. Cafodd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau awdurdod lleol ei fodelu drwy gynhyrchu amcanestyniadau amrywiadol ynghyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth. Dangosodd yr amcanestyniadau amrywiadol sut y gallai amrywiadau posibl mewn tybiaethau ynghylch ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau.

Cynghorir awdurdodau lleol i ddefnyddio'r amcanestyniadau cyhoeddedig hyn fel man cychwyn, a chânt eu hannog i gynhyrchu eu senarios a'u hamcanestyniadau amrywiadol eu hunain os bydd angen. Mae'r feddalwedd PopGroup (ceir disgrifiad byr yn yr adran *meddalwedd*) a ddefnyddir i gynhyrchu'r amcanestyniadau ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ac (fel mewn rowndiau rhagamcaniad blaenorol) gofynnir am ganiatâd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i rannu'r data sylfaenol a ddefnyddir fel bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r data i greu eu hamrywiadau eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Perthnasedd

Mae ystadegau poblogaeth a mudo yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw mawr am ystadegau poblogaeth a mudo ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif anghenion y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol, (er enghraifft, ysgolion, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol;
- cyfrannu at setliad refeniw Cyllid Llywodraeth Leol;
- datblygu polisïau;
- cyngor i Weinidogion;
- cyfrannu at ddadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt;
- cyfrifo ystadegau pellach (er enghraifft, Amcangyfrifon Tai, ac Amcanestyniadau Aelwydydd);
- enwaduron mewn cyfraddau (er enghraifft, cyfraddau geni a chyfraddau marwolaethau);
- cynhyrchu'r pwysolion mewn rhai arolygon sampl;
- cymariaethau, a meincnodi a phroffilio daearyddol;
- dadansoddiad carfannau poblogaeth a thueddiadau mudo;
- cefnogi asesiadau lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae yna amrywiaeth o ddefnyddwyr yn gwneud defnydd o ddata poblogaeth gan lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Mae yna gryn ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdod lleol yn arbennig. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a helpu i lunio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth wedi'i dadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Gall amcanestyniadau poblogaeth dynnu sylw at dueddiadau sy'n llunio'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol, gan gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach ac ymdrin â mwy na materion lleol yn unig. Bydd tystiolaeth i ategu'r gwaith o baratoi cynllun yn cynnwys ystadegau demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Bydd fersiynau newydd o amcanestyniadau yn y dyfodol yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sy'n mesur sut mae polisïau wedi perfformio a pha gamau a allai fod eu hangen i'w cywiro. Mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod y CDLl yn parhau'n gyfredol. Gall y cynnydd a ddangosir yn yr adroddiadau effeithio ar lefelau a dosbarthiad poblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun yn ffurfio rhan o'r AMB.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Mae'r amcanestyniadau wedi cael eu hasesu gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig https://www.statisticsauthority.gov.uk/ (UKSA) ac wedi cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol ers hynny. Maent yn cael eu hail-asesu (ynghyd â rhai gwledydd eraill y DU) ar hyn o bryd ac mae eu statws fel Ystadegau Gwladol i'w gadarnhau pan fydd yr holl ofynion yn yr adroddiad asesu wedi'u bodloni.

Mae mwy o fanylion o'r asesiad UKSA yn yr adran *hygyrchedd ac eglurder*.

### Cywirdeb

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau cynt. Yn gyffredinol mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau a wneir yn y modd hwn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau, dosbarthiad a newid yn y boblogaeth yn y dyfodol. Mae gan amcanestyniadau poblogaeth eu cyfyngiadau. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth hyn ar gyfer awdurdodau lleol yn rhagolygon seiliedig ar bolisi; maent yn dangos yr hyn y disgwylir iddo ddigwydd os bydd y tueddiadau y maent wedi'u seilio arnynt yn parhau.

Gan fod y broses o newid demograffig yn gronnol, mae amcanestyniadau yn dod yn gynyddol ansicr po bellaf y maent yn cael eu dwyn ymlaen. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac i fwy o raddau nag eraill. Oherwydd maint llifau mudo amcangyfrifedig, i rai awdurdodau lleol mae tybiaethau mudo'n fwy allweddol na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau mudo gael effaith hirdymor sylweddol ar rai ardaloedd.

Mae rhagdybiaethau'n ymwneud â chyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn seiliedig ar lefelau hanesyddol marwolaethau a ffrwythlondeb a'r ffordd maent yn rhyngweithio â maint y boblogaeth ym mhob oedran. Maent yn amodol ar amrywiaeth (er enghraifft, drwy newidiadau mewn tueddiadau ffrwythlondeb neu gynnydd mewn disgwyliad oes) ond nid yw newidiadau o'r fath yn rhai tymor byr fel arfer. Gall mudo ryngweithio â'r tueddiadau hyn hefyd, ond mae'r tybiaethau mudo eu hunain yn agored i amrywiadau tymor byr yn seiliedig ar amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol. Felly mae pennu cyfraddau mudo ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer y pum mlynedd flaenorol yn golygu y gall yr amcanestyniadau fod yn agored i anwadalrwydd tymor byr o ran cyfraddau mudo. Gall hyn fod yn arbennig o wir ar gyfer amcanestyniadau cyfredol, gan fod y rhagdybiaethau wedi'u seilio ar gyfnod a oedd yn cynnwys y dirwasgiad byd-eang a newidiadau eang mewn lefelau mudo.

Mae yna ffactorau a all ddylanwadu ar yr amcanestyniadau a thair prif elfen newid yn y boblogaeth: newidiadau yn yr economi; newidiadau yn ymddygiad unigolion, teuluoedd ac aelwydydd; a digwyddiadau y tu allan i'r DU. Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau awdurdod lleol cynhyrchwyd pedwar amcanestyniad amrywiadol ochr yn ochr â'r

prif amcanestyniad poblogaeth. Dangosodd yr amcanestyniadau amrywiadol hyn sut y gallai amrywiadau posibl yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau.

## Amcanestyniadau amrywiadol

Er mwyn dangos yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â newid demograffig yn y dyfodol wrth gynhyrchu set o amcanestyniadau mae'n bosibl cynhyrchu prif amcanestyniad yn seiliedig ar set o dybiaethau, a nifer o amrywiolion yn seiliedig ar ragdybiaethau amgen. Yr amcanestyniadau yn y Datganiad hwn yw'r prif amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014. Mae adroddiad yn manylu ar bedwar amcanestyniad amrywiadol yn cael ei gyhoeddi hefyd.
Mae crynodeb o'r prif bwyntiau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad cyfredol hwn.

Ar gyfer y set o Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2014, mae pedwar amrywiad wedi cael eu cynhyrchu (ynghyd â'r prif amcanestyniad) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r amcanestyniadau amrywiadol yn dangos sut gall amrywiadau posibl yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith hon yn cynyddu po bellaf i gyfnod yr amcanestyniad y cymerir y canlyniadau. Y pedwar amcanestyniad amrywiadol a ddefnyddir yw:

- Amrywiolyn poblogaeth uwch sy'n seiliedig ar dybiaethau'n ymwneud â chyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is.
- Amrywiolyn poblogaeth is sy'n seiliedig ar dybiaethau yn ymwneud â chyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaethau uwch.
- Amrywiolyn lle mae'r rhagdybiaeth mudo yn seiliedig ar fudo cyfartalog dros gyfnod deng mlynedd hwy.
- Amrywiolyn dim mudo (neu 'newid naturiol yn unig') i ddangos poblogaeth amcanestynedig pob awdurdod lleol pe na bai unrhyw fudo i mewn nac allan yn y dyfodol.

Mae mudo'n cyfeirio at bobl sy'n symud o ac i ardal awdurdod lleol boed yn rhyngwladol, o ran wahanol o'r DU, neu o awdurdod lleol gwahanol yng Nghymru.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol Llywodraeth Cymru ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd o fis Chwefror i fis Mai 2016. Nod yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth am brofiad defnyddwyr wrth ddefnyddio'r allbynnau ystadegol hyn a sut y byddai modd eu gwella.

Nododd yr ymgynghoriad mai'r bwriad oedd dechrau gweithio ar amcanestyniadau newydd ar gyfer y 22 awdurdod lleol a'r 3 pharc cenedlaethol yn ystod hanner cyntaf 2016. Y nod a nodwyd oedd dechrau cyhoeddi canlyniadau o hydref 2016 ymlaen, gan barhau gyda'r allbynnau tan ddechrau 2017, a'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol (y rhai yn y Datganiad hwn) ym mis Medi 2016. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i ymatebwyr:

- Ydych chi'n cytuno â'r amserlen hon?
- Beth yw eich anghenion o ran amcanestyniadau yn y dyfodol?
- Pa mor aml ddylid eu cynhyrchu?

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y dylai amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ac amcanestyniadau aelwydydd gael eu cynhyrchu unwaith bob tair blynedd. Roedd yn well gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol iddynt gael eu cynhyrchu bob yn ail flwyddyn. Roedd ymatebwyr yn rhannu'n gyfartal ynghylch a ddylai amcangyfrifon aelwydydd gael eu cynhyrchu'n flynyddol.

Nododd yr ymateb i'r ymgynghoriad y bydd amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ac amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu cynhyrchu bob tair blynedd (gan gynnwys y rhai ar gyfer ardaloedd parciau cenedlaethol). Bydd amcangyfrifon Aelwydydd yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn (oddeutu tri mis ar ôl cyhoeddi'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn fwy na thebyg). Y bwriad yw cynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2014 cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae'r UKSA wedi cynnig y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ONS a gweinyddiaethau eraill y DU i alinio'r flwyddyn sylfaen ar gyfer amcanestyniadau is-genedlaethol a chenedlaethol lle bo hynny'n bosibl. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

- Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r ONS a gweinyddiaethau eraill y DU i alinio'r flwyddyn sylfaen ar gyfer amcanestyniadau is-genedlaethol a chenedlaethol i'r graddau y bo modd. Ar hyn o bryd mae pa mor aml y bwriedir cyhoeddi ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r ONS yn wahanol (tair blynedd a dwy flynedd yn y drefn honno), felly bydd anghenion defnyddwyr yn cael eu hystyried cyn pob cylch o amcanestyniadau. Os oes angen dybryd gan ddefnyddiwr am amcanestyniadau ar flwyddyn sylfaen wahanol i'r amcanestyniadau cenedlaethol (fel yn yr achos dros yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011) bydd hyn yn cael ei ystyried ac unrhyw benderfyniad yn cael ei egluro i ddefnyddwyr.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau gweithredu dilynol Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi yma:
https://consultations.gov.wales/consultations/statistical-outputs-population-and-household-estimates-and-projections
Anfonwch unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar y cyhoeddiadau hyn ac unrhyw farn ar ofynion amseru yn y dyfodol i: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk.

### Hygyrchedd ac eglurder

Cyhoeddodd yr UKSA Adroddiad Asesu 310, *Population Estimates and Projections for Wales (cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru)*, ym mis Gorffennaf 2015. Dyma ddolen i'r adroddiad

hwnnw: [https://www.statisticsauthority.gov.uk/publication/population-estimates-and-projections-for-wales/](https://www.statisticsauthority.gov.uk/publication/population-estimates-and-projections-for-wales/)

Mae'n un o gyfres o adroddiadau a baratowyd o dan ddarpariaethau Deddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Ystadegau'r ailasesu a oes cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol o hyd mewn perthynas ag ystadegau swyddogol a ddynodwyd eisoes fel Ystadegau Gwladol. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r amcangyfrifon poblogaeth a'r amcanestyniadau poblogaeth canlynol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a adroddwyd yn:

- Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth
- Prif Amcanestyniadau ac Amcanestyniadau Amrywiadol o Boblogaeth Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru,
- Amcanestyniadau Poblogaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol.

Mae'r adroddiad yn rhan o asesiad ehangach o setiau o ystadegau poblogaeth ar draws y DU sy'n cael eu cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS); Llywodraeth Cymru; National Records of Scotland (NRS), a'r Northern Ireland Statistics and Research Agency (NISRA). Mae adroddiadau asesu 309, 311 a 312 yn archwilio'r ystadegau poblogaeth a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, NRS a NISRA yn y drefn honno.

Dywed gofyniad 8 o asesiad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig:

> "The accessibility of the Welsh Government's existing population estimates and projections outputs needs improving.
>
> The Welsh Government should:
>
> a) Improve the standard of commentary – to include additional contextual information and explanation for changes – and presentation to maximise accessibility for a wider range of users. …"

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r gofyniad hwn oedd:

> "We made significant improvements to the commentary and presentation of the [Population Projections for National Parks in Wales]() release, including seeking feedback from the UKSA Good Practice team. Commentary is provided on the population structure in the 2015 Release and explanations of the factors affecting population change are included (for example, population trends for differing age groups, natural change, and migration).
>
> The text of the 2015 Release has been assessed for accessibility by a member of staff with a Diploma in Plain English awarded by the Plain English Campaign, which means that they are qualified to assess whether a document would receive a Crystal Mark (the industry standard for accessibility). It was judged that the 2015 Release would receive a Crystal Mark. The Release was found to have a Flesch Reading Ease Index of 35.1, a 37 per cent improvement over the 2011 Release. We will make similar improvements to the First Release *Local Authority Population Projections for Wales (2014-based)*."

### Cymaroldeb a chydlyniad

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (fel ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau awdurdod lleol mae'r amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu cyfuno â thybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

O ran mudo, defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fudwr rhyngwladol; hynny yw, rhai sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mudwyr tymor byr (er enghraifft, gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) yn cael eu cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

Mae'r amcanestyniadau awdurdod lleol hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Dyma ddolen i'r amcangyfrifon hynny:
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/2015-06-25

Mae'r data sylfaenol a ddefnyddir i wneud y cyfrifiadau yn cael ei gynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y cyfnod rhagweld i gyd, sef pum mlynedd ar hugain fel arfer. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, mae angen ffurfio tybiaethau i ragamcanu lefelau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol ar gyfer pob awdurdod lleol.

Dyma'r ddolen i'r canllawiau ar y fethodoleg a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynhyrchu'r amcangyfrifon poblogaeth:
http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/method-quality/specific/population-and-migration/pop-ests/index.html

Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar fethodoleg debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2011.

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydran carfan. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf;
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig o'r amcangyfrif;
- heneiddio pob unigolyn un flwyddyn;
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau;
- caniatáu ar gyfer mudo i mewn ac allfudo;
- ychwanegu yn ôl yn y grwpiau poblogaeth arbennig.

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy Grŵp Gweithredol Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y broses o

baratoi'r amcanestyniadau ac wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ar y fethodoleg a'r data sylfaen a ddefnyddir. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ac eraill sydd â gwybodaeth a phrofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae cofnodion a’r papurau’n ymwneud â chyfarfodydd WASP yma:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/user-engagement/statistical-groups-committees/wales-sub-national-projections-working-group/?lang=cy

Mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu darparu hefyd mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (PCYC). Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgor, gan gynnwys aelodaeth i’w weld yn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/user-engagement/statistical-groups-committees/welsh-statistical-liaison-committee/about-welsh-statistical-liaison-committee/?lang=cy

Yn gyffredinol, mae'r tybiaethau’n seiliedig ar dueddiadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r amcanestyniadau yn dangos beth allai ddigwydd pe bai’r tueddiadau hyn yn parhau. Gwnaed addasiadau i'r rhagdybiaethau marwolaethau ar lefel grŵp oedran pum mlynedd, i ystyried y gwelliannau mewn cyfraddau marwolaethau yn y dyfodol. Mae'r addasiadau hyn wedi’u cymryd o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gynhyrchir gan ONS. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu gwelliant mewn cyfraddau marwolaethau, ac felly cafwyd disgwyliad oes hirach. Tybir y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Mae'r tybiaethau ffrwythlondeb yn seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf; a'r duedd gyffredinol yw cyfraddau geni ychydig yn uwch ymhlith menywod yn eu tridegau, gan ddangos oedi cyn bod yn fam. Mae'r amcanestyniadau yn dangos beth allai ddigwydd yn y dyfodol pe bai’r tueddiadau hyn yn parhau. Gwnaed addasiadau i'r rhagdybiaethau ffrwythlondeb ar lefel grŵp oedran pum mlynedd, er mwyn ystyried patrymau tebygol yn y dyfodol o ran oedran y fam. Cafwyd yr addasiadau hyn o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae’r holl ffigurau sy’n ymwneud ag oedran gweithio a phoblogaethau oedran pensiwn yn seiliedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Mae canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i greu'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru wedi’u cyhoeddi yn yr adroddiad technegol hwn:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-local-authority-population-projections-technical-en.pdf
Mae'n disgrifio sut mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn cael eu cynhyrchu, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddir i ddatblygu’r tybiaethau ar ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo.

Cynhyrchir amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd bach tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fodd bynnag, dylid nodi nad yw amcanestyniadau hyn yn cymharu'n uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg a blynyddoedd sylfaen. Mae rhagor o wybodaeth am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau yn yr amcanestyniadau hyn ar gael yma: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/methodologies/subnationalpopulationprojectionsacrosstheuk.

## Meddalwedd

Defnyddiwyd meddalwedd PopGroup i greu'r amcanestyniadau. Mae PopGroup yn deulu o fodelau demograffig a ddatblygwyd i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, aelwydydd, llafurlu, ac amcanestyniadau deilliadol eraill ar gyfer ardaloedd daearyddol neu grwpiau poblogaeth penodol (neu'r ddau).

Gall rhagolygon gael eu gwneud gan ddefnyddio amrywiaeth o fewnbynnau a rhagdybiaethau data. Gall poblogaethau presennol a phoblogaethau’r dyfodol gael eu hamcangyfrif, gyda chyfansoddiad oedran a rhyw manwl. Mae’r prif fodiwl PopGroup yn darparu model cydran carfan (y fethodoleg a ddefnyddir gan asiantaethau ystadegol cenedlaethol y DU) sy'n galluogi datblygu amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar fewnbynnau a rhagdybiaethau genedigaethau, marwolaethau a mudo.

Gellir defnyddio PopGroup i gynhyrchu ystadegau poblogaeth o ansawdd sy’n addas i'w defnyddio mewn gwaith cynllunio strategol, cynllunio gwasanaethau a datblygu polisi. Defnyddir PopGroup yn helaeth gan awdurdodau lleol a sefydliadau lleol a rhanbarthol ar draws y DU. Mae'n defnyddio llyfrau gwaith Excel i reoli mewnbynnau ac allbynnau data, ac yn rhoi hyblygrwydd fel y gall defnyddwyr arbrofi a dadansoddi amcanestyniadau amgen.

## Defnyddio data gweinyddol

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn defnyddio data gweinyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dyma’r ddolen i adroddiadau gwybodaeth ansawdd a methodoleg yr ONS ar gyfer thema poblogaeth.
http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/method-quality/quality/quality-information/population/index.html

Mae'r adroddiadau’n cynnwys gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i grynhoi'r data ar gyfer y cynnyrch a enwir ac ar ansawdd y data hwnnw. Eu nod yw rhoi gwybodaeth am gryfderau a chyfyngiadau'r data fel y gellir gwneud penderfyniadau ar y defnydd priodol o'r data. Mae’r ONS yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y data gweinyddol i’w ddefnyddio mewn ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fel defnyddiwr a chynhyrchydd ystadegau allweddol rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y prosesau yn briodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ansawdd sy'n berthnasol i’r amcanestyniadau hyn, a bydd Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda’r ONS i ystyried sut y gellid gwneud unrhyw welliannau yn y dyfodol.

Mae'r data gweinyddol a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau wedi cael eu gwirio'n fewnol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb a hygrededd.

Mae ystadegau genedigaethau'n seiliedig ar nifer y genedigaethau sy'n digwydd mewn blwyddyn benodol. Maent yn cyflwyno data ar enedigaethau sy'n digwydd ac yn cael eu cofrestru wedyn yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ystadegau'n seiliedig ar wybodaeth a gesglir wrth i enedigaethau gael eu cofrestru. Mae data blynyddol yn cael ei ryddhau mewn cyfres o becynnau ar themâu penodol, rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr fel arfer. Mae ystadegau genedigaethau blynyddol ar gyfer y DU a'i gwledydd cyfansoddol yn cael eu cyhoeddi yn y *tablau cyfeirio ystadegau bywyd: poblogaeth ac iechyd*.

Mae ystadegau genedigaethau'r ONS yn seiliedig ar gofrestriadau a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO). Mae'r data yn gofnod cyfreithiol, gan olygu mai dyma'r ffynhonnell ddata orau a mwyaf cyflawn.

Fel rhan o'r broses cofrestru genedigaethau, cyn i ddata gael eu cyflwyno drwy'r system Cofrestru Ar-lein ar gyfer genedigaethau a marwolaethau (RON), mae'r cofrestrydd yn gofyn i'r sawl sy'n cyflwyno'r wybodaeth wirio bod yr holl ddata a roddir yn gywir. Yna gall y cofrestrydd gywiro unrhyw wallau. Mae yna wiriadau dilysu sy'n rhan o RON i helpu'r cofrestrydd gyda'r broses hon. Tybir bod gwybodaeth a gyflwynir wrth gofrestru genedigaeth yn gywir ar y cyfan gan y gall cyflwyno gwybodaeth ffug yn fwriadol olygu y gellid erlyn y sawl sy'n cyflwyno'r wybodaeth.

Pan fydd yr ONS yn derbyn cofrestriadau genedigaeth, mae nifer o wiriadau'n cael eu cynnal ar y cofnodion i sicrhau eu bod yn ddilys. Mae'r gwiriadau'n fwy cyson ar y cofnodion hynny sydd â gwerthoedd eithafol ar gyfer y prif newidynnau (megis oed y fam ac oed y tad) gan fod y rhain yn cael mwy o effaith ar dablau a gyhoeddir. Caiff unrhyw gofnodion geni sy'n ymddangos yn amheus eu trafod gyda'r GRO yn fisol er mwyn ymchwilio iddynt ymhellach. Caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i'r broses o gofnodi a chasglu data cofrestru genedigaethau eu rheoli'n ofalus ac mae'r broses yn cynnwys yr ONS, y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw oblygiadau ar ystadegau genedigaethau'n cael eu hystyried yn llawn.

Mae newidiadau a wnaed yn ddiweddar i Ddeddf Poblogaeth (Ystadegau) 1938 yn golygu bod data gwell ar blant blaenorol wedi'i gasglu ers mis Mai 2012. Bydd y newidiadau yn gwella cywirdeb ystadegau genedigaethau yn ôl trefn geni a chyfrannu at amcangyfrifon o faint teuluoedd a mesurau o ffrwythlondeb. Mae'r ONS yn cynnal gwiriadau chwarterol ar y set ddata genedigaethau.

Gwnaeth Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau (1836) hi'n ofyniad cyfreithiol i bob marwolaeth gael ei chofrestru o 1 Gorffennaf 1837 ymlaen. Mae ystadegau marwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglir pan fo marwolaeth yn digwydd a'i gofrestru

wedyn. Mae’r ffigurau a gyhoeddir yn cynrychioli nifer y marwolaethau a gofrestrir mewn cyfnod cyfeirio.

Mae'r ystadegau marwolaethau blynyddol yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae tabl Data Cyfres Amser Blynyddol yn y tablau cyfeirio *ystadegau bywyd: poblogaeth ac iechyd* yn darparu casgliad o ystadegau marwolaeth ar gyfer y DU a'i gwledydd cyfansoddol, gyda rhai mesurau ar gael sy’n mynd yn ôl cyn belled â 1838.

Mae’r ONS yn derbyn detholiadau dyddiol o gofrestriadau marwolaethau gan RON, ac yna’n mynd trwy gyfres o brosesau dilysu awtomatig sy'n amlygu unrhyw anghysondebau. Mae'r Metadata Marwolaethau’n rhoi gwybodaeth fanwl am gasglu, prosesu ac ansawdd y data marwolaethau ar gyfer Cymru a Lloegr.

Yna mae gwiriadau cysondeb mewnol yn cael eu cynnal i gael gwared ar unrhyw wallau a wnaed wrth gofnodi marwolaethau, ac i sicrhau bod y set ddata flynyddol yn gyflawn. Cyn iddo allu cael eu dadansoddi mae gwiriadau a phrosesau dilysu pellach yn cael eu cynnal ar y data, gan gynnwys cyfrifiadau amlder ar ddetholiad o newidynnau, gwirio hygrededd cyfuniadau o feysydd, a gwirio anghysondebau. Caiff unrhyw gofnodion amheus eu cyfeirio’n ôl i’r swyddfeydd cofrestru. Caiff unrhyw bryderon yn ymwneud ag achos marwolaeth eu cyfeirio at Ymgynghorydd Meddygol neu Epidemiolegydd Meddygol.

Mae amcangyfrifon mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor ar lefel awdurdod lleol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon er mwyn cynhyrchu casgliad o amcangyfrifon poblogaeth. Caiff y data ei gyflwyno fel:

- Cyfeintiau mewnfudo ac allfudo rhyngwladol hirdymor - yn cynrychioli nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU neu’n gadael y DU am gyfnod o 12 mis o leiaf
- Cyfeintiau mewnfudo ac allfudo mewnol - amcangyfrif o fudo o fewn y DU (llif trawsffiniol rhwng pob un o'r gwledydd cyfansoddol, yn ogystal â mudo rhwng awdurdodau lleol)
- Cyfraddau trosiant mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor (megis cyfaint y symudiad rhwng mewnfudo ac allfudo) fesul 1000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfraddau mewnlif ac all-lif rhyngwladol hirdymor fesul 1000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfanswm cyfaint mudo fesul 1000 (cyfanswm mudo mewnol a rhyngwladol). Mae hyn yn dangos yn gliriach pa ardaloedd sydd â lefelau uchel o drosiant poblogaeth.

Caiff amcangyfrifon mudo rhyngwladol tymor byr ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr eu cynhyrchu gan yr ONS. Mae'r data’n cynnwys cyfeintiau mewnfudo rhyngwladol tymor byr, sy'n cynrychioli nifer y bobl a arhosodd yng Nghymru a Lloegr am gyfnod rhwng 3 a 12 mis.

Bydd y sylw a roddir i fudwyr rhyngwladol sy’n ymuno â ffynhonnell weinyddol yn dibynnu ar bwrpas y system weinyddol benodol ac mae’n anorfod y bydd yn amrywio rhwng ffynonellau.

Ers canol 2011 ymlaen, mae carcharorion yn cael eu hystyried fel pobl sy’n preswylio fel arfer mewn sefydliad os ydynt wedi’u dedfrydu i garchar o chwe mis neu fwy. Cyn hynny, ystyriwyd carcharorion fel pobl oedd yn preswylio fel arfer os oeddent wedi’u dedfrydu i garchar ac eisoes wedi bod yn y carchar am chwe mis neu fwy. Newidiwyd y diffiniad hwn er mwyn bod yn fwy cyson â diffiniad Cyfrifiad 2011 o breswylfan arferol ar gyfer carcharorion.

Ar gyfer poblogaeth arbennig y Lluoedd Arfog, defnyddiwyd cyfartaledd pum mlynedd o ddata i amcangyfrif nifer y lluoedd arfog yng Nghymru ar gyfer y naill ryw a’r llall a phob blwyddyn oedran unigol. Yna cadwyd y ffigurau hyn yn gyson drwy bob blwyddyn o'r amcanestyniad.

Cyn canol 2011, roedd disgyblion preswyl yn cael eu trin fel poblogaeth arbennig gan mai’r gred oedd nad oedd eu symudiadau’n cael eu dal yn y ffynonellau data a ddefnyddiwyd i amcangyfrif mudo mewnol. Fodd bynnag, mae ymchwil bellach wedi dangos bod symudiadau disgybl preswyl ysgol yn cael eu mesur yn yr amcangyfrifon mudo mewnol ac felly ni fydd y gydran hon yn cael ei chynnwys yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn mwyach. O ganlyniad roedd disgyblion preswyl yn cael eu trin fel poblogaeth arbennig yn amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2006 a 2008, ond ni fydd hyn yn digwydd yn yr amcanestyniadau cyfredol na rhai’r dyfodol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Eu hamcan yw creu Cymru sy’n fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn ac iach ac sy’n gyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae'n rhaid eu cymhwyso i’r diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016; ac er nad yw’r Datganiad hwn yn darparu data ar gyfer unrhyw un o'r targedau yn benodol, gellid ystyried rhai o'r targedau mewn perthynas â meintiau poblogaeth a ragwelir yn y Datganiad.

Gwybodaeth am y dangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion cenedlaethol

Rhagor o wybodaeth am Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
Gallai'r ystadegau sydd yn y datganiad hwn roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol hefyd a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a’u cynlluniau llesiant lleol.

### Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:
http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-population-projections/?lang=cy

Mae taflen gyfarwyddyd ar amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru ar gael yma:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-local-authority-population-projections-guidance-en.pdf
Mae'n rhoi arweiniad ar: amcanestyniadau poblogaeth, hyd yr amcanestyniadau, y defnydd o amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol, a phryd i ddefnyddio amcanestyniadau awdurdod lleol a chenedlaethol.

Mae set o Gwestiynau Cyffredin yma:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-population-projections-faqs-en.pdf

### Diweddariad nesaf

Medi 2019 (dros dro)

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk.


### Trwydded Llywodraeth Agored

Mae’r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir fel arall.

OGL